

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

C.B.Jones

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher 11 Ionawr 2017 am 5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Côd Ymddygiad

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaidd** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2** **CYHOEDDIADAU**

- 3** **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn rhai cywir.

- 30 Tachwedd, 2016.
- Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor – 15 Rhagfyr, 2016

1 – 8

9 -12

- 4** **LLYWODRAETHU AGORED:**

- 5** **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (a) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.A.Bradwick i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A wnaiff Arweinydd y Cyngor roi'r wybodaeth ynglâ'r sefyllfa ddiweddar ynglŷn â Mynydd y Maerdy?"

- (b) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol C.J.Williams i Gadeirydd Pwyllgor Materion Trwyddedu (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.S.Fox)**

"A fyddwch chi'n cefnogi'r cysyniad o ddull di-bapur o weithredu yn y Pwyllgor Trwyddedu?"

- (c) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol B.Morgan i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, Cydraddoldeb, a'r Gymraeg, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ar y Gymraeg?"

- (ch) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Smith i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar feysydd parcio canol trefi?"

- (d) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L.De Vet i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Forey)**

"A wnewch chi ddatganiad ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn cefnogi byw'n annibynnol?"

7 MR.A.MICHAEL, COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

Derbyn Mr.A.Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddau a fydd yn amlinellu cynlluniau ar gyfer plismona yn Rhondda Cynon Taf.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 8 Adroddiad Blynyddol Cronfa Deddf Eglwys Cymru 2015/16**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen **13 – 52**
- 9 Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor Lleol**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen **53 – 60**
- 10 Ariannu Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif trwy ddefnyddio amodau benthyca darbodus (Prudential Borrowing)**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen **61 – 64**
- 11 Penodi Aelodau Annibynnol Newydd i'r Pwyllgor Safonau**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol **65 – 68**
- 12 Rhybuddion o Gynigion**
- (1)** Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J.S.Ward and (Mrs.)M.E.Davies
- “Bod y Cyngor hwn yn cefnogi ymgyrch yr Aelod Seneddol dros Abertawe Dwyrain, Carolyn Harris AS, mewn perthynas â thalu am angladdau plant bach
- Mae'r Cyngor hwn o'r farn y dylai ffioedd claddu gael eu hepgor yn yr amgylchiadau hyn, a bydd e'n sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghyd-destun trefniadau ffioedd a chodi tâl yn y dyfodol
- Bod y Cyngor hwn yn ychwanegu'i gefnogaeth at yr ymgyrch i ofalu bod Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru, fel ei gilydd, yn mynd ati i dalu am gostau angladdau plant bach, a'u bod nhw'n deddfu yn yn unol â hynny. Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at y Gweinidog priodol i gefnogi'r achos yma.
- Byddai'r cam bach hwn yn lleddfu mymryn o'r baich ar deuluoedd, a hwythau yn eu galar”.


- (2) Trafod y Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol B.Stephens, R.Yeo, L.M.Adams, (Mrs.)M.E.Davies, L.M.Adams, T.Bates, R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S.Bradwick, J.Bunnage, A.Calvert, P.Cannon, S.Carter, J.Cass, A.Crimmings, W.J.David, A.Davies MBE, A.Davies, J.Davies, L.De Vet, J.Elliott, M.Forey, A.S.Fox, M.Griffiths, S.Evans, P.Griffiths, E.Hanagan, G.Holmes, G.Hopkins, S.Jones, L.Langford, R.Lewis, C.Leyshon, S.Lloyd, R.B.McDonald, C.Middle, K.Montague, A.Morgan, B.Morgan, M.A.Norris, S.Pickering, S.Powderhill, K.Privett, S.Rees, A.Roberts, J.Rosser, G.Smith, R.Smith, G.Stacey, M.Tegg, G.Thomas, R.K.Turner, J.S.Ward, M.J.Watts, M.Webber, D.Weeks, C.Williams, D.H.Williams, T.Williams a C.J.Willis.

"Bod y Cyngor hwn yn mynd ati i gefnogi Ymgyrch Calonnau Cymru i ddarparu peiriant diffibrilio mewn mannau cyhoeddus.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r gwahaniaeth y gall y cyfryw offer ei wneud mewn sefyllfaoedd o argyfwng, ac mae'r rhain eisoes i'w cael ar nifer o safleoedd y Cyngor, megis canolfannau chwaraeon, gan gydnabod eu pwysigrwydd ac mae'n ymrwymo i roi arian tuag at gynyddu'r ddarpariaeth o offer ar draws safleoedd allweddol y Cyngor.

Gofynnwn fod adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer cymeradwyaeth Aelodau i osod nifer o beiriannau ychwanegol ar safleoedd allweddol ar draws y Fwrdeistref Sirol.

- 13 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a

Llywodraethol
At: Pob aelod o'r Cyngor

4 Ionawr, 2017